Ap GIG Cymru
NHS Wales App

Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd
Digital Services for Patients and the Public

# Ap GIG Cymru: Canllaw cyfeirio cyflym

## Pwy all ddefnyddio Ap GIG Cymru

I ddefnyddio Ap GIG Cymru, mae'n rhaid i gleifion:

- fod wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu yng Nghymru
- fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn
- allu profi eu hunaniaeth
- fod â'u cyfeiriad e-bost unigol eu hunain (mae eu cyfeiriad e-bost yn gweithredu fel eu dynodwr unigryw ar gyfer paru eu cyfrif NHS login ag Ap GIG Cymru, felly ni ellir ei rannu rhwng cleifion)
- fod â rhif ffôn symudol neu rif llinell dir ar gyfer prawf dilysu dau gam (gellir rhannu'r rhif ffôn hwn rhwng cleifion)

Mae dilysu dau gam yn ddull diogelwch sy'n gofyn am ddau ddull adnabod gwahanol i wirio hunaniaeth defnyddiwr cyn rhoi mynediad i adnoddau a data.

## Sut i lawrlwytho Ap GIG Cymru

Gellir lawrlwytho'r Ap o'r App Store a Google Play trwy chwilio am "Ap GIG Cymru". Mae'r Ap hefyd ar gael drwy ddefnyddio porwr gwe yn **https://app.nhs.wales** a **https://ap.gig.cymru**.

## Nid oes gan y claf yr ID llun gofynnol i wirio ei hunaniaeth

Bydd angen i gleifion sydd â'r ID llun gofynnol i ddilysu eu hunaniaeth, megis pasbort neu drwydded yrru, ddefnyddio Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru (WIVS) trwy NHS login. Bydd angen i gleifion gael eu practis i wirio eu hunaniaeth. Unwaith y byddan nhw wedi'u dilysu, byddan nhw'n derbyn llythyr dilysu hunaniaeth ac yna gallan nhw gwblhau'r camau ar NHS login. Bydd yn fyw ym mhob practis ledled Cymru erbyn diwedd Ebrill 2025.

**Darganfod mwy am NHS login a lefelau dilysu**

## Mae cleifion yn sôn am broblemau wrth gofrestru neu fewngofnodi i'r Ap

Er mwyn mewngofnodi a defnyddio'r Ap, rhaid i gleifion gael **NHS login**, sy'n wasanaeth a reolir gan GIG Lloegr.

Os yw cleifion yn cael problemau gyda'u cyfrif NHS login, bydd angen iddyn nhw ymweld â **Chanolfan Gymorth NHS login**. Mae'r Ganolfan Gymorth yn cynnig cyngor a chymorth ar gyfer problemau gyda NHS login. Mae hefyd yn rhoi manylion am sut i gysylltu â **thîm cymorth NHS login**.

Dim ond yn Saesneg y mae'r system NHS login ar gael, ac mae gennym oddefeb arbennig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn.

## Mae cleifion yn adrodd am broblemau eraill gydag Ap GIG Cymru

Os nad yw'r mater yn ymwneud â NHS login, yna anogwch gleifion i ymweld â **thudalennau cymorth a chefnogaeth Ap GIG Cymru**. Gall cleifion gyrchu tudalennau cymorth a chefnogaeth trwy ddewis yr eicon Help ar unrhyw sgrin.

Os oes ganddyn nhw broblem dechnegol gyda'r Ap neu os ydyn nhw am roi adborth am yr Ap yn gyffredinol, gallan nhw anfon adborth o fewn yr Ap gan ddefnyddio'r botwm adborth ar waelod y sgrin. Gallan nhw hefyd wneud hyn o'r tudalennau cymorth.

Os oes gennych chi gwestiynau neu os oes angen help arnoch gyda phroblemau technegol gyda'r Ap, defnyddiwch y porth hunanwasanaeth **Pwynt Gwasanaeth**.

I gael rhagor o wybodaeth am setiau data sylfaenol i'w cynnwys gydag ymholiadau desg wasanaeth, gweler **Cymorth ap ar gyfer practisiau meddygon teulu**.

## Mae cleifion yn adrodd na allant weld slotiau apwyntiad, er bod gennym apwyntiadau ar gael

Bydd Ap GIG Cymru yn dangos unrhyw apwyntiadau rydych wedi'u cynnig i'w harchebu ar-lein o fewn yr 16 wythnos nesaf. Gellir defnyddio'r cyfluniad system meddygon teulu i gyfyngu ar y nifer o apwyntiadau y gall un claf eu gwneud.

## Nid yw cleifion yn gallu gweld eu presgripsiynau sydd ar gael i'w harchebu, na'u meddyginiaethau acíwt

Dim ond meddyginiaethau a fydd yn cael eu harchebu yn ystod y 28 diwrnod nesaf y bydd Ap GIG Cymru yn eu dangos. Nid yw'r Ap yn cynnig nodwedd archebu presgripsiwn sydd ddim yn bresgripsiwn rheolaidd ar hyn o bryd. Gallant weld rhestr o'u meddyginiaethau acíwt, rheolaidd cyfredol, a rheolaidd sydd wedi dod i ben, yn yr adran Fy Iechyd, o dan Presgripsiynau.

## Mae cleifion yn gofyn am fynediad i'w cofnod Iechyd

Mae'r rhan fwyaf o bractisiau wedi galluogi'r cofnod gofal cryno (SCR) ar gyfer pob claf fel gosodiad safonol.

Gall cleifion ofyn am fynediad i'w cofnod cod manwl (DCR) trwy eu practis meddyg teulu. Mae angen i hyn gael ei gymeradwyo neu ei wrthod gan y practis. Cyfrifoldeb y practis yw gwirio'r wybodaeth cyn ei rhyddhau i'r claf. Am ragor o wybodaeth am gofnodion codio manwl, **Adnoddau i Bractisiau ar y Cofnodion Manwl wedi'u Codio (sharepoint.com)**

Am ystyriaethau pellach am gofnod codio manwl a diogelu cleifion, gweler **Mynediad at gofnodion cleifion a diogelu - Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Os nad yw'r practis yn dymuno cynnig y gwasanaeth hwn, fe'ch cynghorir i nodi hyn ar wefan y practis i helpu i reoli disgwyliadau cleifion.

**Mwy o wybodaeth am fynediad at gofnodion cleifion a diogelu**

## Mae cleifion eisiau cael mynediad i'r Ap ar ran aelodau o'u teulu neu bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw

Gelwir hyn yn Mynediad awdurdodedig a bydd yn caniatáu i gleifion ddefnyddio'r Ap ar ran claf arall sydd wedi'i gofrestru yn yr un practis. Bydd mwy o fanylion ar gael yn fuan.